

Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 293 –27 Hydref 2006
Gwesty Parc, Ger Treffynnon

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2006.

1. Cyfarfod Cyhoeddus Treffynnon

Nodwyd bod yr ymateb wedi bod yn un da o'r ddwy ochr yn y cyfarfod cyhoeddus yn Nhreffynnon neithiwr ac atebwyd nifer o gwestiynau. Nodwyd yr angen i roi ystyriaeth lawn i'r sylwadau.

2. Partneriaeth Strategol rhwng S4C â'r BBC

Rhodddwyd adborth ar gyfarfod yr Awdurdod a Chyngor Darlledu'r BBC ar nos Lun, 16 Hydref a'r cinio gyda Michael Grade. Nododd y Cadeirydd bod y Bartneriaeth Strategol rhwng S4C â'r BBC wedi'i arwyddo. Diolchodd i holl staff S4C am eu gwaith yn ystod y trafodaethau er mwyn cyflawni'r cytundeb rhwng y ddau gorff.

3. Adroddiad y Cadeirydd

Adroddodd y Cadeirydd ar ei ymweliad â Gwifren Gwylwyr ym Mhorthmadog.

4. Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol

Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol am y trydydd chwarter. Cymeradwywyd y ddogfen Monitro i'w gyhoeddi ar wefan S4C yn dilyn mân newidiadau.

5. Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth

Nodwyd y canlynol:

- **Di dueddrwydd** – yn dilyn cyfarfod rhwng swyddogion Ofcom Cymru a'r Ysgrifennydd nodwyd bod Ofcom wedi cadarnhau nad oes ganddynt yr hawl gyfreithiol i aseinio rheoleiddio di dueddrwydd i'r Awdurdod.
- **Cwyn Mr Asquith** – Nodwyd bod Ofcom wedi dyfarnu yn erbyn cwyn Mr Asquith i raglen *Y Byd ar Bedwar* a ddarlledwyd ar y 14eg o Fehefin 2005 ar S4C.

6. Adolygiad Polisi Plant

Cyflwynwyd papur ar adolygiad Polisi Plant. Cytunwyd i fabwysiadu'r argymhellion. Cymeradwywyd y Polisi gydag adolygiad pellach yn 2007. Canmolwyd y sector ar y brwdfrydedd sydd wedi trawsnewid gwarchod plant yn y sector.

7. Cyflwyniad Cyfarwyddwr Technegol

Rhoddwyd cyflwyniad a phapur gan y Cyfarwyddwr Technegol ar y sefyllfa ddiweddaraf ar newid i ddigidol.

8. Rôl yr Awdurdod - Arwahanrwydd

Cyflwynwyd fersiwn diwygiedig o'r ddogfen Rôl yr Awdurdod a oedd wedi'i gymeradwyo mis diwethaf, yn ymgorffori sylwadau'r Awdurdod gyda Chyngor gan Edwards Geldard yn cadarnhau bod y ddogfen o fewn pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod - www.s4c.co.uk

9. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Comisiynu prif bwyntiau adroddiad y Prif Weithredwr yn ei habsenoldeb:

- Ail strwythuro – nodwyd bod gwaith o ail-strwythuro wedi cychwyn yn yr Adran Gomisiynu a Phlaned Plant.
- Tynnwyd sylw bod dwy hysbys (trel) yn hyrwyddo rhaglenni cerddoriaeth y Sianel a digwyddiadau'r haf 2006 wedi eu henwebu ar gyfer gwobrau blaenllaw yn y diwydiant.
- Nodwyd hefyd bod ffilm animeiddiedig Joanna Quinn “Beryl – Y Briodas Fawr” / “Dreams and Desires” wedi cael mynediad awtomatig i ran gyntaf enwebiadau Oscars oherwydd ei bod wedi ennill prif wobwr animeiddio Ewrop y Cartoon D’Or.

10. Rheolau Sefydlog

Cyflwynwyd y rheolau diwygiedig - www.s4c.co.uk

11. Cyflwynwyd y papurau canlynol:-

- Adroddiad Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Ariannol
- Polisi Manyllder Uwch
- Adroddiad Ymchwil